# Uned Radiotherapi
# Velindre @ Nevill Hall
# Radiotherapy Unit




**A hithau'n agor yn 2025, bydd Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall gwerth £38 miliwn yn cynyddu ein capasiti i ddarparu gwasanaethau radiotherapi gleifion de-ddwyrain Cymru.**

| | |
|---|---|
| MYNEDIAD AT DRINIAETH | Mae'r gwell capasiti'n golygu y dylech ddechrau eich triniaeth yn gynharach. |
| GOFAL CYNHWYSFAWR | Cewch amrywiaeth lawn o wasanaethau radiotherapi o dan un to. |
| CYMORTH AC ADDYSG | Bydd yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar gael drwy gydol eich triniaeth. |

Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall
Ysbyty Nevill Hall
Heol Aberhonddu
Y Fenni
NP7 7EG

Dedicated patient parking available

**Am fwy o wybodaeth, ewch i**

**felindre.gig.cymru/nevillhall**

# I BWY MAE HYN?

Bydd Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall yn gwella gallu Gwasanaeth Canser Felindre i ddarparu radiotherapi, a'n helpu i weld mwy o gleifion bob wythnos. Bydd y gwasanaeth yn dwyn budd i gleifion o dde-ddwyrain Cymru sy'n cael eu cyfeirio at Wasanaeth Canser Felindre am eu triniaeth radiotherapi.

Bydd yr uned yn trin cleifion canser y fron, canser y prostad a chleifion radiotherapi lliniarol sy'n ateb meini prawf clinigol.

Bydd cleifion sy'n cael eu cyfeirio at Wasanaeth Canser Felindre'n cael apwyntiad naill ai yng Nghanolfan Ganser Felindre yn yr Eglwys Newydd neu yn Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall.

Bydd y penderfyniad ynglŷn â ble bydd cleifion yn mynd yn seiliedig ar dri phrif ffactor:

| | |
|---|---|
| **ANGEN MEDDYGOL** | Mae pob claf sy'n cael radiotherapi gyda ni'n wahanol. Pan fyddwch yn dod atom, byddwn yn asesu eich anghenion meddygol ac yn eich cyfeirio at y lle mwyaf addas i chi. |
| **RHAGOR O APWYNTIADAU AR GAEL** | Ein blaenoriaeth yw helpu cleifion i ddechrau eu triniaeth cyn gynted â phosibl, sy'n golygu byddwn yn cynnig triniaeth i chi yn y lle sydd â'r apwyntiad cynharaf. |
| **LLEOLIAD** | Pan fydd apwyntiadau ar gael yn y ganolfan ganser yn yr Eglwys Newydd ac yn Uned Radiotherapi Felindre @ Nevill Hall, byddwn ni'n ceisio eich cyfeirio at y lle agosaf at eich cartref. |


GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg / Cwm Taf Morgannwg University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre / Velindre University NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board